**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1450
Ein cyf/Our ref JMHSC/00535/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

18 Mawrth 2025

Annwyl Carolyn,

**Deiseb P-06-1450 Llywodraeth Cymru i weithredu i amddiffyn pobl rhag heintiau a drosglwyddir drwy'r awyr mewn lleoliadau gofal iechyd**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 18 Chwefror ynglŷn â'r ddeiseb hon. Rwy'n nodi bod y ddeiseb bellach wedi'i chau a bod sylwadau ac argymhellion pellach y deisebydd wedi'u hanfon er gwybodaeth at gyd-gadeiryddion Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru.

Byddaf yn mynd i'r afael â sylwadau ac argymhellion pellach y deisebydd yn eu tro.

**1. Heintiau a drosglwyddir drwy'r aer a heintiau a drosglwyddir gan ddefnynnau**

Mae mesurau atal a rheoli heintiau sefydledig ar waith mewn lleoliadau ysbyty er mwyn lliniaru lledaeniad heintiau. I'r mwyafrif, mae Covid-19 yn salwch anadlol cyffredin a dylid ei reoli yn unol â hynny. Mae'r rhai yr ystyrir eu bod yn wynebu risg uwch o fynd yn ddifrifol wael oherwydd Covid-19 yn gymwys i gael profion a thriniaethau gwrthfeirol.

Mae Llywodraeth Cymru, gyda chymorth Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Ystadau Arbenigol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn parhau i gyflwyno mesurau i wella ansawdd yr aer ledled y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Ystadau Arbenigol yn cytuno â'r mesurau ar y cyd ar gyfer lliniaru risg megis puro ansawdd yr aer a monitro gosodiadau a allai fod yn fanteisiol yn absenoldeb gosodiad awyru sy'n cydymffurfio'n llawn. Ceir canllawiau ar ddefnyddio peiriannau puro'r aer a dylid dilyn y gofynion a ganlyn:
Defnyddio Hidlyddion Aer Effeithlonrwydd Uchel (HEPA)
Defnyddio Dyfeisiau Uwchfioled (UVC)

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Llawlyfr Cenedlaethol ar Atal a Rheoli Heintiau (NIPCM) - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru) a Mesurau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Heintiau Anadlol Acíwt gan gynnwys Covid-19 ar gyfer Lleoliadau Iechyd a Gofal - CYMRU yn ymdrin ag atal heintiau a drosglwyddir drwy'r aer.

Mae masgiau llawfeddygol sy'n gwrthsefyll hylif yn fesur rheoli'r tarddiad i geisio dal secretiadau anadlol er mwyn cyfyngu ar drosglwyddo pathogenau anadlol a gaiff eu lledaenu gan ddefnynnau neu drwy'r aer. Os oes angen gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol ar glaf sydd â haint anadlol acíwt a amheuir neu a gadarnhawyd, yna cyfarpar diogelu anadlol, a fyddai'n diogelu'r gwisgwr, megis masgiau FFP3 a fyddai'r cyfarpar diogelu personol (PPE) a argymhellir yn unol â'r rhagofalon sy'n seiliedig ar drosglwyddiadau.

Pan argymhellir ystyried defnyddio masgiau yn gyffredinol, byddai'r math o fasg yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys y math o haint a natur y gofal clinigol neu'r driniaeth sy'n cael ei rhoi.

## 2. Effeithiau ar iechyd hirdymor

Y ffordd fwyaf effeithiol o atal pobl rhag datblygu Covid hir yw tarfu a chyfyngu ar ledaeniad SARS-CoV-2. Mae'r mesurau a gaiff eu rhoi ar waith i gyflawni hyn wedi'u hamlinellu mewn rhannau eraill o'r ymateb hwn. Fodd bynnag, nodwyd yr angen i helpu pobl sy'n wynebu Covid Hir mor gynnar â 2020, a rhagwelwyd y byddai angen i gefnogaeth o'r fath barhau. Yn dilyn buddsoddiad cychwynnol gwerth £10 miliwn rhwng 2021-2023 i sefydlu gwasanaethau sef y rhaglen Adferiad (Recovery), cynyddwyd y buddsoddiad hwn o 2023 ymlaen i gyllid rheolaidd gwerth £8 miliwn. Rydym wedi ymrwymo o hyd i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn parhau i fod ar gael. Wrth i'r sylfaen dystiolaeth ehangu, gan gynnwys tystiolaeth am driniaethau a gwahanol fathau neu gyflwyniadau o Covid hir, bydd hyn yn llywio'r model a'r llwybrau gofal gorau posibl o hyn ymlaen.

Mae cyflogwyr yn gyfrifol am sicrhau bod staff yn cael eu helpu i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl unrhyw gyfnod o salwch, gan gynnwys Covid hir. Pan fo angen, dylent wneud addasiadau rhesymol i hwyluso hyn.

Yn unol â Pholisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith Cymru Gyfan, bydd gan staff GIG Cymru gymorth pwrpasol unigol i hwyluso eu hadferiad a dychwelyd i'r gwaith. Caiff rheolwyr y GIG eu hannog i ystyried gwahanol ddulliau gweithredu sy'n fwyaf priodol i sefyllfa'r unigolyn, er enghraifft, dychwelyd yn raddol, adleoli dros dro ac addasiadau wedi'u teilwra. Canllawiau GIG Cymru i reolwyr ar gefnogi gweithwyr ar absenoldeb salwch tymor hir gyda diagnosis o syndrom ôl-Covid-19 | Cydffederasiwn y GIG

Yn 2023, diweddarwyd y canllawiau i helpu sefydliadau'r GIG i ystyried cynllunio ar gyfer aelodau unigol timau sydd â Covid hir: Canllawiau i helpu unigolion â Covid-19 hir i ddychwelyd i'r gwaith a Chanllawiau i helpu unigolion sy'n asymptomatig ond sy'n cael canlyniad positif | Cydffederasiwn y GIG

## 3. Monitro Systemau Awyru

Mae awyru a hidlo effeithiol yn allweddol i gyflawni hyn ac i leihau'r risg o heintiau. Dyma rai camau gweithredu allweddol sydd wedi'u cynnal:

- Cyhoeddi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru newydd (WHTM) 03-01 – Awyru Arbenigol ar gyfer Safleoedd Gofal Iechyd Rhan A a Rhan B sy'n ymdrin â dylunio,

dilysu a pherfformiad gweithredol. Mae'r dogfennau hyn yn rhoi argymhellion manwl ynghylch awyru i bob safle gofal iechyd, gan gynnwys safleoedd gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol.

- Mae pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru wedi penodi Personau Awdurdodedig ar gyfer awyru. Maent yn sicrhau bod y gwaith o osod, cynnal a chadw a monitro systemau yn cyrraedd y safon cydymffurfio.
- Mae Grwpiau Diogelwch Awyru ar waith ym mhob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru. Mae gan y grwpiau hyn gyfrifoldeb dros sicrhau bod pob system awyru yn cael ei dylunio, ei gosod, ei phrofi a'i chynnal yn unol â'r canllawiau.
- Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Ystadau Arbenigol yn darparu gwasanaeth Peiriannydd Awdurdodi-Awyru a gaiff ei benodi yn gynghorydd annibynnol gan fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG i gynnal asesiadau o Bersonau Awdurdodedig, systemau archwilio a'u rheolaeth weithredol gysylltiedig. Mae'r Peiriannydd Awdurdodi hefyd yn aelod o'r Grŵp Diogelwch Awyru.
- Mae peirianwyr Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Ystadau Arbenigol yn cynnal archwiliadau dilysu llawn o'r systemau awyru arbenigol pan gânt eu gosod yn y lle cyntaf. Yn ogystal, maent yn cynnal gwiriadau ar offer awyru critigol yn flynyddol a chaiff contractwyr allanol hefyd eu comisiynu i gyflawni'r gwaith hwn sy'n sicrhau y caiff yr holl systemau awyru arbenigol eu cynnwys.

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Ystadau Arbenigol wedi cynghori y byddai rhoi gweithdrefnau monitro CO2 ar waith ac adrodd yn ganolog ar hyn yn heriol dros ben.

## 4. Y Strategaeth Brofi

Mae Covid-19 wedi bodoli ers mwy na phedair blynedd, ac yn ystod y cyfnod hwn, mae imiwnedd naturiol wedi cronni ymhlith y cyhoedd yn dilyn tonnau olynol o heintiau. Mae'r cyfuniad o imiwnedd naturiol, ynghyd â'r brechlyn a roddwyd o fis Rhagfyr 2020 ymlaen, wedi gwella ymhellach imiwnedd y boblogaeth i'r feirws. Mae'r strategaeth brofi yng Nghymru wedi'i dylunio i lywio gofal clinigol ac mae'n gyson â'r sefyllfa ledled y DU o ran profi gweithwyr gofal iechyd. Mae profion wedi'u dylunio i ddiogelu ein dinasyddion mwyaf agored i niwed rhag salwch difrifol drwy ategu penderfyniadau o ran triniaethau wrthfeirol Covid-19 lle nodir yn glinigol.

Yn ei gyngor diweddaraf ym mis Awst 2024, nododd y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu fod y sefyllfa bresennol yn un lle y mae lefelau uchel iawn o imiwnedd yn y boblogaeth yn erbyn y feirws SARS-CoV-2 ac ymddangosiad is-amrywiolion omicron newydd nad ydynt yn gysylltiedig ag afiechydon mwy difrifol o gymharu ag amrywiolion cynharach.

Yn unol â'n strategaeth ar gyfer byw ochr yn ochr â Covid-19, mae ein Canllawiau i gyflogwyr yn amlinellu mesurau rheoli iechyd y cyhoedd, y gellid eu defnyddio i gynorthwyo gweithleoedd i reoli'r risg yn sgil y clefydau trosglwyddadwy mwyaf cyffredin, sy'n cynnwys Covid-19, y ffliw a norofeirws. Mae canllawiau atal a rheoli heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn rhoi cyngor i gyflogwyr a staff ar faterion iechyd galwedigaethol sy'n ymwneud â'r gweithle. Mae disgwyliad wedi'i nodi yn y canllawiau hyn na ddylai staff weithio pan fyddant yn sâl.

Mae'r mesurau hyn yn rhoi cyngor i'r gweithle, gan gynnwys cyngor ynghylch y risg sy'n gysylltiedig â staff sydd â symptomau anadlol a sut i reoli hyn. Mae'r rhai yr ystyrir eu bod yn wynebu risg uwch o fynd yn ddifrifol wael oherwydd Covid-19 yn gymwys i gael profion a thriniaethau gwrthfeirol.

Rydym yn nodi'r cais i weithwyr gofal iechyd gael eu hannog i fanteisio ar frechlynnau Covid-19. Caiff rhaglenni brechu cenedlaethol Llywodraeth Cymru eu llywio gan gyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu. Pan gyhoeddodd y Cyd-bwyllgor ei gyngor ar y carfanau cymwys ar gyfer rhaglen brechu rhag Covid-19 hydref 2024, cynghorodd yn erbyn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y rhaglen Covid-19 genedlaethol. Gan ystyried y dystiolaeth a oedd ar gael, daeth y Cyd-bwyllgor i'r casgliad nad oes budd i gleifion yn sgil lleihau heintiau ymhlith gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol drwy cynnig brechlynnau genedlaethol.

Ym mis Awst 2024, derbyniodd Llywodraeth Cymru gyngor y Cyd-bwyllgor ond oherwydd bod rhaglen frechu'r hydref ar fin dechrau yn fuan wedi hynny, penderfynwyd sicrhau bod brechlynnau ar gael i'r grwpiau hyn yn rhan o raglen hydref 2024. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai dyma fydd y tro olaf y bydd cynnig rhagweithiol yn cael ei wneud i'r grwpiau hyn, yn amodol ar y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yn y dyfodol, ac adolygiad parhaus gan y Cyd-bwyllgor. Nid yw'r sefyllfa honno wedi newid, ac ni ddisgwylir y bydd gweithwyr gofal iechyd yn cael eu cynnwys yn rhaglen hydref 2025. Yn hytrach, bydd y rhaglen yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar frechu'r rhai sy'n wynebu risg sylweddol o fynd i'r ysbyty a chlefydau difrifol.

Chwaraeodd Arolwg Heintiadau Covid-19, a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ran bwysig o ran cynnal gwyliadwriaeth gymunedol o heintiau Covid-19 yn ystod y pandemig. Gwnaeth y llywodraethau datganoledig weithio gyda thîm astudiaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ddarparu gwybodaeth gwbl arloesol o bob cwr o'r DU ynghylch cyfraddau positifrwydd, lefelau achosion gan gynnwys Covid hir, lefelau gwrthgyrff ac effaith amrywiolion sy'n peri pryder.

Cynhaliwyd trafodaethau ddechrau 2023 i geisio ehangu cwmpas yr Arolwg er mwyn cynnwys heintiau anadlol eraill drwy astudiaeth monitro iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, penderfynodd Llywodraeth y DU i oedi'r gwaith o gasglu'r data o dan yr Arolwg wrth i benderfyniadau gael eu gwneud ynghylch ariannu modelau gwyliadwriaeth yn y dyfodol. O ganlyniad, cafodd yr Arolwg ei ddatgomisiynu ym mis Mawrth 2023. Wedi hynny, penderfynodd Llywodraeth y DU i beidio â bwrw ati â'r astudiaeth ehangach o ran monitro iechyd y cyhoedd.

Yn ddiweddarach, cytunodd Gweinidogion y DU i Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU fwrw ymlaen â fersiwn newydd, wedi'i gwtogi'n sylweddol, o'r Arolwg (a enwyd yn Arolwg Heintiadau Covid-19 y gaeaf), gyda'r bwriad o'i gynnal rhwng 1 Tachwedd 2023 a 31 Mawrth 2024 (24 o wythnosau). Gwnaethom benderfynu peidio â chymryd rhan yn yr arolwg hwn oherwydd amryw o ffactorau, gan gynnwys:

- Maint sampl bychan o gymharu â'r Arolwg Heintiadau Covid-19 - tua 1,200 o bobl ar gyfer Cymru o gymharu â 13,000 o bobl ar anterth y pandemig ar gyfer yr Arolwg Heintiadau Covid-19.
- Byddai'r cyfnod amser byr wedi cyfyngu ar werth yr astudiaeth, lle y gallai gwyliadwriaeth bresennol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gymunedau ac ysbytai ddarparu data tymor hir.
- Heb brofion PCR (roedd yr arolwg yn wirfoddol ac yn defnyddio profion dyfais llif unffordd), ni fyddai dilyniant genomig wedi bod a diffyg gwybodaeth felly ynghylch newidiadau i amrywiolion.
- Yn ogystal, dim ond ymdrin â Covid-19 oedd diben y prawf ac ni fyddai'n darparu gwybodaeth am feirysau anadlol eraill. Ein polisi yw symud o wyliadwriaeth sy'n benodol ar gyfer Covid-19 i heintiau anadlol ehangach.

Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth yn hunanadrodd am Covid hir ac felly gallai hyn arwain at gamddosbarthu. Yn ogystal, cyfrifir hyd Covid hir yn wahanol yn Adolygiad o Heintiadau Covid-19 y gaeaf (sef o ddyddiad hunangofnodedig), o gymharu â'r Adolygiad o Heintiadau Covid-19 (sef o'r haint coronafeirws cyntaf a amheuwyd). Ni allwn barhau i ddefnyddio canlyniadau profion Covid-19 i bennu dechrau Covid hir oherwydd bod profion ailadroddus wedi dod i ben a'r cynnydd yng nghyfran y boblogaeth sydd wedi wynebu heintiau ailadroddus. Un opsiwn i fesur Covid hir yng Nghymru fyddai cynnwys cwestiynau penodol yn Arolwg Cenedlaethol Cymru.

## 5. Puro Aer

Mae GIG Lloegr wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch defnyddio purwyr aer. Cyn eu defnyddio, dylid trafod a chytuno ar eu gweithredu yng nghyfarfodydd y Grŵp Diogelwch Awyru. Yn unol â'r canllawiau, mae'n hanfodol bod pob gosodiad wedi'i ddylunio a'i gomisiynu'n fedrus i ddangos effeithiolrwydd.

## 6. Diogelu staff

Gallaf gadarnhau bod hyfforddiant staff priodol ac asesiadau risg parhaus yn cael eu cynnal ynghylch y risgiau sy'n gysylltiedig â heintiau a drosglwyddir drwy'r aer.

Mae sefydliadau gofal iechyd yn gyfrifol am sicrhau bod systemau gwaith diogel ar waith, sy'n cynnwys rheoli'r risg sy'n gysylltiedig â heintiau. O ran safonau mewn perthynas â hyfforddi staff a sicrhau bod staff yn gwybod sut i asesu risg ar gyfer lleoli cleifion orau, rheoli'r amgylchedd a rhoi mesurau rheoli ar waith, mae'r llawlyfr atal a rheoli heintiau cenedlaethol yn set o egwyddorion sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n darparu canllawiau a chymorth i weithwyr gofal iechyd ar ragofalon gofynnol ac egwyddorion atal a rheoli heintiau sy'n ofynnol i atal heintiau anadlol acíwt rhag cael eu trosglwyddo, gan gynnwys Covid-19. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn darparu asesiadau risg i'w defnyddio mewn gwahanol leoliadau clinigol sy'n helpu sefydliadau i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'u hamodau gweithio penodol. Cyfrifoldeb byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau iechyd unigol yw'r dull gweithredu ar gyfer monitro'r cydymffurfio â rhoi mesurau atal a rheoli heintiau cywir ar waith i leihau lledaeniad heintiau. O bryd i'w gilydd, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cynnal adolygiadau penodol ac yn ystyried mesurau atal a rheoli heintiau sydd ar waith pan fyddant hefyd yn cynnal adolygiadau mwy cyffredinol.


Mae Covid-19 yn un o nifer o heriau sy'n gysylltiedig â heintiau y mae'r GIG yn ymdrin â nhw o ddydd i ddydd ac mae hyfforddiant blynyddol ar atal a rheoli heintiau yn ofyniad gorfodol sy'n sicrhau y caiff sgiliau staff o ran cymhwyso mesurau atal a rheoli heintiau cyfredol eu diweddaru. Mae'r mesurau a'r canllawiau ar atal a rheoli heintiau sydd ar waith wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â gofynion atal a rheoli heintiau yr holl heriau sy'n wynebu'r system gofal iechyd o ran heintiau. Mae hyn yn cynnwys Covid-19, ond hefyd y ffliw a norofeirws er enghraifft. Mae profion ffitrwydd hefyd yn cael eu cynnal yn rheolaidd fel y gall staff gymhwyso'r rhain yn gywir pan fo angen Cyfarpar Diogelu Anadlol. Yn ogystal, mae gan fyrddau iechyd dimau Atal a Rheoli Heintiau sy'n cynnwys rolau addysg a hyfforddiant i helpu staff clinigol rheng flaen i roi'r mesurau cywir ar waith.

## 7. Diogelu rhag Covid-19 Nosocomiaidd

Yn ystod misoedd y gaeaf yn benodol, rhagwelir cynnydd yn nifer yr achosion o feirysau anadlol sy'n cylchredeg ac mae gwaith cynllunio'r GIG ar gyfer hyn yn rhan annatod o'r cylch cynllunio drwy gydol y flwyddyn. Mae gwyliadwriaeth ar nifer yr achosion o feirysau

anadlol ar waith ac fe'i defnyddir i hwyluso gwaith cynllunio a chymhwyso gweithdrefnau atal a rheoli heintiau a rheoli risg ar draws lleoliadau gofal iechyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Fframwaith Feirysau Anadlol y Gaeaf 2024 i 2025 sy'n amlinellu mesurau i wasanaethau iechyd helpu'r rhai sydd eisoes â chlefydau anadlol i aros yn iach a lleihau'r risg sy'n deillio o glefydau eraill sy'n mynd ar led. Rydym wedi rhoi pwyslais cryf ar ddefnyddio PPE mewn ysbytai i liniaru risgiau ymhellach, ac am gyfnod yn ystod y gaeaf hwn, gwnaeth byrddau iechyd Cymru roi defnyddio masgiau yn gyffredinol ar waith.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care